

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Rheola'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sut yr ydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau chi o ran rheoli eich data. Mae rhagor o wybodaeth yn ein Polisi Preifatrwydd cyhoeddedig.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae'n bwysig i chi fod yn ymwybodol o rwymedigaethau a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i ddarparu mynediad, os gwneir cais, i wybodaeth wedi'i recordio a ddaliwn. Un o ganlyniadau'r cyfrifoldebau statudol hyn yw y gallid datgelu gwybodaeth amdanoch, mewn ymateb i gais, oni phenderfynwn fod un o'r eithriadau statudol yn gymwys.

Os anfonwch wybodaeth y credwch iddi fod yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol, bydd arnoch angen nodi hynny'n glir. Byddai o gymorth inni pe medrech esbonio'n fyr y rhesymau am y cyfrinachedd am ba hyd y pery hwn. Os gwneir cais am y wybodaeth hon, bydd hyn yn ein helpu i gadarnhau ein rheswm dros beidio â darparu'r wybodaeth os credwn mai peidio sy'n briodol. Ond peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd eithriad awtomatig yn gymwys os nodwch wybodaeth yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif. Rhaid ystyried ffactorau eraill ar y pryd hefyd, megis natur a chwmpas y wybodaeth a geisid a'r amseriad. (Cymer rheolau Rhyddid Gwybodaeth yn ganiataol fod cyfrinachedd/sensitifrwydd masnachol yn pylu dros amser.)

Weithiau cynnwys gwybodaeth, data a deunyddiau o unrhyw natur ddata Personol neu ddata Personol Sensitif (fel y diffinnir yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol). Os yw hyn yn gymwys, ni ddatgelwch unrhyw wybodaeth gyfrinachol i drydydd parti heb eich cydsyniad.